FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

21 - 25 Chwefror 2005

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol, yn bennaf, yw gorfodi cyfraith fwyd y DU sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio llawn yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo hylendid bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Dylid cydnabod y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae arolygiadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ôl 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys peth data ystadegol, er enghraifft, data ar nifer yr arolygiadau a wnaed ar safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgareddau gorfodi ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad A.

	CYNNWYS	Tud.
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**4**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**7**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**8**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**10**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**11**
6	Cyfleusterau ac Offer	**14**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**15**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**18**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**19**
10	Cyngor i Fusnesau	**20**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**21**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**22**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**24**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**26**
15	Gorfodaeth	**27**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**30**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**32**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**33**
19	Monitro Mewnol	**34**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**35**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**36**
	Atodiad	
A	Geirfa	**37**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Y Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pŵer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o dan Adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod yn rhan o raglen o arolygiadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a chyfraith bwydydd anifeiliaid Castell-nedd Port Talbot. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod yn Nhŷ Newby, Abaty Nedd, rhwng 21 - 25 Chwefror 2005.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 – ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Mawrth 2002, Mehefin 2003 a Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol.

1.6 Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.7 Awdurdod Unedol yn Ne-Orllewin Cymru yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac mae'n cynnwys ardal o ryw 44,217 hectar gan gynnwys trefi Castell-nedd a Port Talbot a'r ardal oddi amgylch. 134,000 yw'r boblogaeth breswyl.

1.8 Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth bwysig o ran sicrhau bod bwyd a gynhyrchir yn lleol yn ddiogel i'w fwyta trwy weithredu deddfwriaeth fwyd

a monitro diogelwch bwyd a safonau ansawdd yn effeithiol.

1.9 Diogelu'r gadwyn fwyd trwy weithredu a gorfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid yn effeithiol yw un arall o swyddogaethau pwysig yr Awdurdod.

1.10 Roedd 1,119 o fusnesau bwyd a 4 o fusnesau bwydydd anifeiliaid wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod.

1.11 Mae busnesau bwyd yn cynnwys busnesau adwerthu, gweithgynhyrchu, arlwyo a phrosesu. Mae dau fusnes bwyd yn sefydliadau cymeradwy o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, mae 24 yn gigyddion trwyddedig, ac mae yno 2 bantri cadw ceirw.

1.12 Cyfrifoldeb yr Adain Gwasanaethau Masnachol lle mae staff Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yn cydweithio yn un tîm, yw gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Gan Bennaeth Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach oedd y cyfrifoldeb

am y gwasanaeth, ac adroddai yntau yn ei dro i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Defnyddwyr.

1.13 Adeg yr archwiliad roedd yr Awdurdod yn paratoi ar gyfer ad-drefnu mewnol a fyddai'n effeithio ar y strwythur presennol.

1.14 Mae'r ardal yn gartref i ddwy ŵyl flynyddol fawr ac amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol llai. Mae'n lleoliad poblogaidd yn ogystal i gyngherddau pop, y cyfan yn ychwanegu at faich gwaith o ddydd i ddydd yr Adain Gwasanaethau Masnachol.

1.15 Mae swyddogion arweiniol yr Awdurdod ar gyfer gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, yn swyddfa Abaty Nedd ar gyrion y dref. Mae Pennaeth y Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr ym mhencadlys yr Awdurdod yng nghanol tre Castell-nedd.

1.16 Nododd yr Awdurdod yn ei Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd 2004 – 2005, bod ganddo'r dadansoddiad canlynol o safleoedd bwyd yn ôl categori risg.

Hylendid bwyd

Categori Safleoedd Bwyd	Nifer y Safleoedd
A	19
B	181
C	684
D	188

E	84
F	22
NIR	112
Heb eu graddio	22
Cyfanswm	**1312**

Safonau Bwyd

Categori Safleoedd Bwyd	Nifer y Safleoedd
Uchel	56
Canolig	466
Isel	274
NIR	469
Dim	102
Cyfanswm	**1367**

1.17 Roedd gan yr Awdurdod nod o 100% i arolygiadau hylendid bwyd mewn safleoedd bwyd uchel eu risg ac eraill. Nodai Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd 2004 – 2005 i hyn gael i

gyflawni yn ystod y blynyddoedd 2000 –2001, 2001 – 2002 a 2002 – 2003. Amcangyfrifid y byddai angen 750 o arolygiadau i gyrraedd y nod yn 2003 – 2004 ac 892 yn 2004 - 2005.

Adnoddau

1.18 Mae Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd 2004-2005

yn nodi bod 14.4 o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ymwneud â gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, er nad yw'n cynnwys amcangyfrif o nifer y staff sydd ei angen mewn gwirionedd i gyflwyno'r gwasanaeth.

1.19 Fodd bynnag, nodai gwybodaeth a ddarparodd yr Awdurdod cyn yr archwiliad mai cyfanswm o ddim ond 8.65 cyfwerth â staff amser llawn yr oedd a wnelont â'r gweithgareddau hyn ar y pryd, diffyg ymddangosiadol o 5.75 FTE.

1.20 Datganai'r Cynllun Gwasanaeth mai dyraniad cyllideb yr Awdurdod ar gyfer gorfodi diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid oedd:

	Cyllideb
Staffio	£624,916
Teithio a Chynhaliaeth	£20,651
Samplo	£30,900
Arall	£35,530
Incwm	-£61,333

Cyfanswm	**£650,664**

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd cydlynus ac yn gwneud gwaith rhagweithiol fel samplo bwyd, hyrwyddo diogelwch bwyd a chyngor i fusnesau yn ogystal â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag arolygiadau ac ymchwilio i gŵynion.

2.2 Ychydig dystiolaeth oedd fod yr Awdurdod yn ymgymryd yn effeithiol â'i gyfrifoldebau o ran bwydydd anifeiliaid.

2.3 Maes Allweddol i'w Wella gan yr Awdurdod

Gorfodi Bwydydd Anifeiliaid

Ychydig dystiolaeth oedd fod yr Awdurdod yn ymgymryd â gweithgaredd priodol o ran gorfodi bwydydd anifeiliaid.

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd ar gyfer 2004-2005 a gynhwysai hylendid bwyd, safonau bwyd a gorfodi bwydydd anifeiliaid. Cyfeiriai'r Cynllun Gwasanaeth at adroddiad adolygu Gwerth Gorau a ddywedai fod gan y gwasanaeth nodau ac amcanion clir a oedd yn cysylltu â nodau'r Cyngor. Y datganiad o genhadaeth oedd 'creu dyfodol mwy llewyrchus, wedi'i addysgu'n well, ac yn iachach, gwyrddach, mwy diogel a mwy hyderus i bobl a chymunedau Castell-nedd Port Talbot'.

3.2 Roedd Pwyllgor Cabinet yr Awdurdod wedi cymeradwyo'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth fis Ionawr 2004.

3.3 Lluniwyd y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn fras yn unol ag Arweiniad

Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys proffiliau safleoedd ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, er mai ychydig fanylion a geid ynddo am orfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid.

3.4 Roedd meysydd eraill y Cynllun Gwasanaeth na fodlonai ofynion y Cytundeb Fframwaith yn cynnwys y dyraniad ariannol i'r gwasanaeth, gan nad oedd y manylion ynghylch hyn yn gyflawn, ac amcangyfrif o'r adnoddau staff a oedd yn angenrheidiol i gyflwyno'r gwasanaeth.

3.5 Rhoddwyd tystiolaeth bod perfformiad y gwasanaeth yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn a bod adolygiad rhannol o Gynllun Gwasanaeth 2003 - 2004 yn gynwysedig yn yr adroddiad cefndir i Gynllun Gwasanaeth 2004 - 2005.

3.6 Dywedwyd wrth yr archwilwyr i 100% o arolygiadau hylendid bwyd arfaethedig gael eu targedu yn 2003 - 2004, ond na chyflawnwyd hyn. Dangosai adroddiad y gronfa ddata a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad na chwblhawyd arolygiadau safonau bwyd a hylendid

bwyd arfaethedig a oedd yn ymestyn yn ôl i 2000 a 2003, yn eu tro.

3.7 Nid oedd y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn mynd i'r afael â chwestiwn arolygiadau a oedd yn hwyr.

3.8 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth bod 14.2 o swyddogion Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) ar gael i ymdrin â gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr bod y

swyddogion hyn yn gyfrifol yn ogystal am ystod o ddyletswyddau eraill

ac o ganlyniad, mai'r dyraniad gwirioneddol i'r gwasanaeth oedd 8.65 FTE.

Argymhellion

3.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod ei Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth ar gyfer gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, yn gwbl unol â'r Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1 y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

(ii) Cynnal adolygiad perfformiad ar sail y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid dogfennu hwn a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

(iii) Sicrhau bod unrhyw amrywiant o ran bodloni'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn cael sylw yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn ddilynol. [Y Safon – 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd gan yr Awdurdod system reoli ar gyfer dogfennaeth, a oedd i'w gweld yn Llawlyfr Gweithdrefnau Ansawdd, er na fu'n gwbl effeithiol o ran sicrhau bod angen adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gâi eu cynnwys gan y Safon.

4.2 Roedd rhai o bolisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn y Safon wedi dyddio ac arnynt angen eu hadolygu a'u diweddaru.

4.3 Roedd copïau rheoledig o ddogfennau ar gael i swyddogion ar y rhwydwaith gyfrifiadurol mewnol, er nad oedd rhai ar y fformat a bennir yn Llawlyfr Gweithdrefnau Ansawdd.

4.4 Yn gyffredinol, roedd gan swyddogion fynediad at gopïau cyfredol o ddogfennau perthnasol naill ai ar ffurf copi caled neu ar-lein, gan gynnwys deddfwriaeth, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, Canllawiau Diwydiant, arweiniad LACORS, a dogfennaeth briodol arall.

Argymhelliad

4.5 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer pob un o'r gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn y Safon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a phryd bynnag y ceir newid yn y ddeddfwriaeth neu arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 4.1]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd a'r Ddeddf Amaethyddiaeth. Roedd hon yn rhan o Lawlyfr Gweithdrefnau Ansawdd.

5.2 Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn dirprwyo awdurdodi swyddogion i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Defnyddwyr ac i Bennaeth Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Yn ymarferol awdurdodwyd swyddogion gan Bennaeth Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, a oedd yn unol â'r Cyfansoddiad.

5.3 Cynhwysai'r pŵer dirprwyedig yn y Cyfansoddiad y Ddeddf Amaethyddiaeth, Deddf y Cymunedau Ewropeaidd, a Deddf Diogelwch Bwyd ond nid oedd yn cynnwys yn benodol unrhyw Reoliadau a wnaed yn ôl y Deddfau hyn.

5.4 Dirprwyai'r Cyfansoddiad y pŵer i ganiatáu, gwrthod, gwahardd a.y.b drwyddedau siopau cigyddion a chymeradwyaeth i sefydliadau sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, i Bwyllgor Rheolaethol Cofrestru, Trwyddedu a Phriffyrdd.

5.5 Nodai dogfennau awdurdodi swyddogion fod gan swyddogion y pwerau 'at bob diben a fo'n gysylltiedig â gorfodi'r Deddfau a'r Rheoliadau canlynol', gan restru'r Deddfau eu hunain a chan gynnwys Deddf y Cymunedau Ewropeaidd, ond dim Rheoliadau penodol a wnaed yn ôl y Deddfau.

5.6 Roedd yn amlwg bod swyddogion a oedd yn gweithredu gorfodi cyfraith hylendid bwyd a safonau bwyd yn briodol gymwys. Ceid yn ogystal asesiad cymhwyster dogfenedig ar gyfer swyddogion newydd eu penodi.

5.7 Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bod swyddogion a oedd yn gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd yn derbyn o leiaf yr isafswm o 10 awr o hyfforddiant datblygiad parhaus y flwyddyn sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer, ar gael i 11 allan o gyfanswm o 18 swyddog.

5.8 Roedd yn amlwg hefyd nad oedd swyddogion na weithiai yn Adain y Gwasanaethau Masnachol ac nad oedd yn rheolaidd yn gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd, wedi cael eu hawdurdodi o dan y Ddeddf. Nid oedd dim tystiolaeth bod y swyddogion hyn wedi cynnal yr isafswm o 10 awr y flwyddyn o hyfforddiant datblygiad parhaus sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.9 Penododd yr Awdurdod swyddogion arweiniol priodol â chyfrifoldeb am orfodi cyfraith diogelwch bwyd a safonau bwyd, ac am orfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.

5.10 Cynhwysai proses adolygu datblygiad personol yr Awdurdod adolygiad o hyfforddiant a wnaed a nodi anghenion hyfforddiant. Fodd bynnag, er bod swyddogion yn gyfrifol am gynnal eu cofnodion datblygiad parhaus eu hunain, ni chawsai hyn ei fonitro i sicrhau y bodlonid y gofynion sylfaenol.

5.11 Er y câi anghenion o ran hyfforddiant eu nodi, a bod cynllun hyfforddiant dogfenedig, nid oedd gan yr Awdurdod raglen hyfforddi ddogfenedig.

5.12 Roedd y rhan fwyaf o swyddogion yr oedd ganddynt gyfrifoldeb am gymeradwyo ac arolygu sefydliadau o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd penodol i gynnyrch ac am arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, wedi derbyn hyfforddiant ar egwyddorion ac ymarfer HACCP.

5.13 Dim ond dau swyddog a awdurdodwyd i gynnal arolygiadau safonau bwyd ar fusnesau bwyd a raddiwyd yn risg 'uchel', a busnesau bwyd â systemau sicrhau ansawdd dogfenedig, oedd â thystiolaeth o gwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

5.14 Ymddangosai o Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd a gwybodaeth a ddarparwyd i ddibenion yr archwiliad fod nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) a oedd mewn swydd yn llai na nifer y staff FTE a ddylai fod wedi bod ar gael ar gyfer gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

5.15 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod gan y swyddogion a awdurdodwyd ganddo dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas a fo'n gyson â'u hawdurdodi a'u dyletswyddau ac yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig a sicrhau y caiff pob swyddog awdurdodedig a staff ategol priodol eu hyfforddi yn agweddau technegol a gweinyddol y gwaith y maent yn ei wneud. Lle darperir hyfforddiant, dylid cadw ar ffeil fanylion am gynnwys ac amcanion y cwrs, parhad y cwrs ac unrhyw asesiad a wnaed o'r hyfforddiant hwnnw,. [Y Safon – 5.4]

(iii) Cadw cofnod o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill, hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog awdurdodedig a staff ategol priodol yn unol â Chod Ymarfer Rhif.19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.5]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Rhoddid thermomedrau isgoch a thermomedrau profi i swyddogion. Roedd, yn ogystal, thermomedr cyfeirio calibrad ac amrywiaeth o gapiau profi calibrad.

6.3 Cyflwynwyd gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer calibro a chynnal a chadw offer fis Ebrill 2004, a oedd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal a chadw a chalibro offer profi, mesur a phwyso, gan gynnwys thermomedrau, a'u gwaredu pan y'u cafwyd yn ddiffygiol. Ni chynhwysid y gweithdrefnau hyn yn y Llawlyfr Ansawdd.

6.4 Cawsai eitemau o'r offer eu nodi â chyfeirnod unigryw a'u cofnodi. Cynhaliwyd profion calibro ddwywaith y flwyddyn a chofnodi'r canlyniadau.

6.5 Cadarnhaodd yr archwiliad y câi'r offer ei brofi a'i galibro yn rheolaidd yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig ac y cedwid cofnodion priodol.

6.6 Gallai system gyfrifiadurol yr Awdurdod a ddefnyddid i gofnodi gwybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, ddarparu'r wybodaeth a oedd yn ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.7 Roedd systemau diogelwch a systemau wrth gefn yn eu lle i leihau perygl llygru neu golli gwybodaeth a gedwid ar y gronfa ddata.

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.1 Nodai Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd y byddai'r Awdurdod yn gweithredu rhaglen ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd ar sail asesiad o'r risg yn unol â Chodau Ymarfer Rhifau 8 a 9 ac arweiniad LACORS.

Hylendid bwyd

7.2 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygiadau cyffredinol hylendid bwyd a oedd yn rhan o Lawlyfr Gweithdrefnau Ansawdd. Nid oedd, fodd bynnag, ddim gweithdrefnau dogfenedig penodol yn ymwneud ag arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion nac ag arolygu a chymeradwyo sefydliadau a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.3 Gwiriwyd cofnodion deg o safleoedd a oedd yn destun y rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol a dau a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch. Dangosai'r rhain i arolygiadau gael eu cynnal yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd

7.4 Dangosodd adroddiad a gynhyrchwyd o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad bod 49 o arolygiadau hylendid bwyd yn hwyr, gan gynnwys 34 yng nghategorïau risg hylendid bwyd A i C. Roedd tri ar ddeg o'r arolygiadau hwyr heb eu cwblhau yn rhaglen arolygu 2003 – 2004.

7.5 Nid oedd arolygiadau hylendid bwyd ar rai safleoedd felly yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder cywir.

7.6 Dyrennid sgôr risg tybiannol o ran hylendid bwyd i safleoedd newydd eu cofrestru er mwyn sicrhau y câi arolygiad ei gynnal, ond roedd tri o'r safleoedd hyn heb eu harolygu cyn pen y cyfnod penodedig.

7.7 Defnyddiwyd adroddiad safonol yr Awdurdod ar gyfer arolygu hylendid bwyd i gofnodi arolygiadau diweddar o hylendid bwyd cyffredinol, a gwnaed ymweliadau dilynol lle oedd hynny'n briodol i weld a fu cydymffurfio.

7.8 Cofnodid manylion maint a graddfa'r fusnes a'r math o weithgaredd bwyd, ond yn hanesyddol nid oedd dim gwybodaeth am hyfforddiant ar hylendid bwyd i'r staff nac am asesiad o ddadansoddi perygl. Fodd bynnag, yn ddiweddar, cyflwynwyd ffurflen gofnodi gan yr Awdurdod a oedd wedi mynd i'r afael â'r diffygion hyn.

7.9 Gwiriwyd cofnodion yn ymwneud â saith cigydd trwyddedig. Yn y saith achos roedd yn amlwg bod arolygiadau trwyddedu wedi'u cofnodi'n drefnus ac wedi rhoi sylw i'r gofynion trwyddedu priodol.

7.10 Nid oedd yng nghofnodion dau sefydliad a gymeradwywyd dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, ddigon o wybodaeth i benderfynu a wnaeth yr arolygiadau asesu cydymffurfiad â phob agwedd ar y Rheoliadau perthnasol. Nid oedd dogfennaeth gymeradwyo yn ddigonol chwaith.

Argymhelliad

7.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer yr holl ystod o arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4]

Safonau Bwyd

7.12 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygiadau safonau bwyd yn Llawlyfr Gweithdrefnau Ansawdd. Roedd hefyd ffurflen gofnodi Arolygiad / Ymweliad Safonau Masnach a ddefnyddid ar gyfer holl arolygiadau Safonau Masnach, gan gynnwys safonau bwyd.

7.13 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud ag unarddeg o arolygiadau safonau bwyd a gynhaliwyd yn ystod y deuddeng mis cyn yr archwiliad. Dangosai'r rhain i ddeg gael eu harolygu yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.14 Roedd cofnodion arolygiadau, ymweliadau dilynol, adroddiadau arolygu a gohebiaeth arall ar gael ar y gronfa ddata. Gwnaethpwyd yr arolygiadau gan swyddogion awdurdodedig a chysylltwyd ag Awdurdodau Cartref lle bu'n briodol.

7.15 Dangosodd adroddiad a gynhyrchwyd o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad bod 154 o arolygiadau safonau bwyd yn hwyr, 33 ohonynt yn y categorïau risg uchel neu ganolig. O'r herwydd nid oedd arolygiadau safonau bwyd ar rai safleoedd yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder cywir.

Argymhelliad

7.16 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl amlder nad yw'n

llai nag a bennir dan y system raddio ar gyfer arolygu a nodir yng Nghod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]

Bwydydd anifeiliaid

7.17 Nid oedd unrhyw weithdrefn arolygu ddogfenedig ar gyfer arolygiadau o safleoedd bwydydd anifeiliaid a dim tystiolaeth o raglen arolygu effeithiol ar gyfer safleoedd bwydydd anifeiliaid.

7.18 Roedd pedwar o fusnesau bwyd ar gofrestr yr Awdurdod o sefydliadau neu gyfryngwyr dan Reoliadau 1999 Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr), ond un yn unig a arolygwyd yn y tair blynedd cyn yr archwiliad.

7.19 O'r arolygiadau ar y pedwar safle bwydydd anifeiliaid a wnaed ers 2001, bu dau ohonynt ar siopau bwyd anifeiliaid anwes. Nid oedd modd penderfynu o'r cofnodion beth fu hyd a lled yr arolygu a wnaed mewn dau o'r pedwar arolygiad.

7.20 Nid oedd yr Awdurdod yn mynd i'r afael yn llawn â'i gyfrifoldebau am orfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

7.21 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ôl amlder nad yw'n llai na'r hyn a bennir dan y system raddio ar gyfer arolygu a nodir mewn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

(ii) Asesu cydymffurfiad safleoedd bwydydd anifeiliaid a gymeradwywyd ac sydd wedi'u cofrestru yn ei ardal yn ôl safonau cyfreithiol ragnodedig.
[Y Safon – 7.3]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi ar gyfer ymchwilio i bob cwyn am fwyd a bwydydd anifeiliaid.

8.2 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymchwilio i gŵynion am hylendid bwyd ac ar gyfer cwynion am safonau bwyd yn rhan o Lawlyfr Gweithdrefnau Ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig ynghylch ymchwilio i gŵynion am hylendid safleoedd bwyd, na bwydydd anifeiliaid.

8.3 Archwiliwyd cofnodion deg cwyn am hylendid bwyd, deg cwyn am hylendid safleoedd bwyd, a deg cwyn am safonau bwyd a'u cymharu yn erbyn Cod Ymarfer Deddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun.

8.4 Roedd gwybodaeth gyflawn am y bwyd neu'r safle dan sylw ar gael ynghyd â natur y gŵyn, a'r achwynydd ym mhob un o'r 30 achos, ac roedd tystiolaeth y bu ymchwilio priodol a chymryd camau dilynol priodol.

8.5 Cynhwysai'r camau dilynol gyflwyno samplau mewn achos o gwyno i'w harchwilio mewn labordy, cysylltu â'r Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, cysylltu â'r gweithgynhyrchwr neu'r cyflenwr, ac arolygu safleoedd busnesau bwyd.

8.6 Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn amlwg a roddwyd gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliad.

8.7 Ni chafwyd unrhyw gŵynion am fwydydd anifeiliaid yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhelliad

8.8 Dylai'r Awdurdod:

Estyn a gweithredu ei weithdrefn gwyno ddogfenedig i gynnwys ymchwilio i gŵynion am fwydydd anifeiliaid a chwynion am safleoedd bwyd. [Y Safon – 8.1]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nodai Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd bod yr Awdurdod yn rhoi cyngor a chymorth i fusnesau bwyd yr oedd yn gweithredu'n Awdurdod Cartref ar eu cyfer, ac y byddai'n rhoi gwybodaeth berthnasol i awdurdodau bwyd eraill a fo'n gwneud ymholiadau am fusnesau bwyd o'r fath.

9.2 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol, ond gweithredid trefniadau anffurfiol o ran safonau bwyd â 10 o weithgynhyrchwyr lleol a busnesau bwyd eraill, gyda thystiolaeth o samplo, cyngor ac arolygiadau.

9.3 Cofrestrwyd busnesau y gweithredai'r Awdurdod yn Awdurdod Cartref ar eu cyfer ar wefan LACORS gydag enw ar gyfer cysylltu yn yr awdurdod lleol. Diweddarwyd y cofnodion fis Hydref 2004.

9.4 Cadarnhâi gweithdrefnau dogfenedig bod cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, lle'r oedd yn briodol, yn rhan annatod o weithdrefnau a phrosesau gorfodi'r Awdurdod.

9.5 Roedd gan swyddogion fynediad ar y Rhyngrwyd i gronfa ddata Awdurdodau Cartref LACORS ac, felly, gallent nodi Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol perthnasol a chysylltiadau ag awdurdodau lleol.

9.6 Dangosai cofnodion bod Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn cael ei weithredu, ac y gweithredwyd yn briodol ynghylch ceisiadau am wybodaeth oddi wrth awdurdodau gorfodi eraill.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Dangosodd yr Awdurdod ei ymagwedd at helpu busnesau lleol gydymffurfio â chyfraith fwyd, drwy nifer o fentrau a weithredwyd neu a oedd yn cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

Cyrsiau hyfforddiant ar hylendid bwyd;

- Labelu cig eidion ac arweiniad ar Gynhyrchion Cig;
- Cyngor ar gyfansoddiad bwyd a labelu;
- Gwybodaeth HACCP;
- Gweithdy a CD ar gynhyrchion cig;
- Taflen ar hylendid i stondinau marchnad a stondinau symudol.

10.2 Roedd tystiolaeth y rhoddid cyngor ar gais, yn ystod arolygiadau a thrwy dargedu sectorau busnesau bwyd penodol, am hylendid bwyd a safonau bwyd.

10.3 Nid oedd tystiolaeth i'r Awdurdod baratoi na rhoi unrhyw gyngor ar fwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

10.4 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei gyngor i fusnesau i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 10.1]

11 Y gronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata o safleoedd a oedd yn destun gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal a gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir ac yn gyfredol.

11.2 Roedd gweinyddwr y systemau wedi datblygu a gweithredu set helaeth o drefnau cadarnhau a gwiriadau eraill er mwyn nodi a chywiro gwallau a phroblemau eraill. Fodd bynnag, ni chynhwysid y rhain yn y weithdrefn ddogfenedig.

11.3 Roedd yn amlwg na chafodd rhai camgymeriadau a gwallau yn y gronfa ddata a gafodd eu nodi yn ystod yr archwiliad, eu datgelu gan y gwiriadau hyn.

11.4 Dangosai adroddiadau o'r gronfa ddata a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod rhai safleoedd bwyd 'heb eu graddio' neu wedi'u graddio'n 'dim' ar gyfer hylendid bwyd a/neu safonau bwyd, bod gan rai gyfnodau anghyson rhwng arolygiadau, ac nad oedd gan rai ddyddiad eu harolygu ddiwethaf, a/neu ddyddiad yr arolygiad nesaf.

11.5 Roedd swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr y gronfa ddata.

11.6 Dewisodd yr archwilwyr ar hap, ddeuddeg busnes bwyd o gyfeiriadur busnes lleol a gwirio'r rhain yn erbyn cofnodion yn y gronfa ddata. Cofnodwyd pob un o'r deuddeg ar y gronfa ddata a'u cynnwys yn rhaglenni arolygu arfaethedig yr Awdurdod o ran hylendid bwyd a safonau bwyd.

Argymhelliad

11.7 Dylai'r Awdurdod:

Adolygu, diweddaru a gweithredu ei weithdrefn ddogfenedig fel ag i sicrhau bod ei gronfa ddata safleoedd bwyd yn gywir and yn gyfredol.
[Y Safon – 11.2]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

12.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi a gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer samplo bwyd a rhaglen samplo ar gyfer 2004 –2005. Cynhwysai'r rhaglen gyfranogi mewn arolygon a gyd-drefnwyd a samplo bwyd a gynhyrchwyd yn lleol a bwyd a weinid mewn digwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol lleol.

12.2 Archwiliwyd cofnodion 10 sampl yn ymwneud â hylendid bwyd. Dangosai'r rhain i samplau gael eu cymryd yn unol â rhaglen samplo hylendid bwyd. Cymerwyd y rhan fwyaf o'r samplau mewn perthynas ag arolygon a gyd-drefnwyd er bod un sampl wedi deillio o gŵyn ynghylch bwyd.

12.3 Roedd canlyniadau samplo ar gael ym mhob achos, a dangosai cofnodion yn gyffredinol i ganlyniadau gael eu cofnodi'n gywir ac y cymerwyd camau dilynol priodol ynghylch y rheiny yr adroddwyd iddynt fod yn anfoddhaol. Mewn un achos fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod o'r camau dilynol a gymerwyd.

12.4 Nid oedd dim gweithdrefn ddogfenedig o ran cadw, atafaelu nac o ildio yn wirfoddol, fwyd yr oedd drwgdybiaeth yn ei gylch.

12.5 Archwiliwyd cofnodion o ran saith achos o ildio bwyd yn wirfoddol i'w ddinistrio, yr ymdriniodd yr Awdurdod â hwy yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

12.6 Nodai tystysgrifau bod y bwyd dan sylw wedi'i ildio'n wirfoddol i'w ddinistrio. Llofnodwyd y tystysgrifau gan y sawl a oedd yn ildio'r bwyd a'r swyddog perthnasol, ond nid oedd dim cofnodion o ran dinistrio'r bwyd.

12.7 Ni fu dim atafaelu na chadw bwyd o ran materion hylendid bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.8 Roedd gan yr Awdurdod bolisi samplo dogfenedig ar gyfer samplo bwyd a bwydydd anifeiliaid a gytunwyd gan y Pwyllgor Economaidd, Gwasanaethau'r Amgylchedd a Gwasanaethau Defnyddwyr fis Ebrill 2003. Roedd, yn ogystal, weithdrefn samplo ddogfenedig ar gyfer safonau bwyd.

12.9 Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod samplo safonau bwyd yn cael ei wneud a'i anelu at amrywiaeth o gynhyrchion a weithgynhyrchid ac a gynhyrchid yn lleol, gyda chyfranogiad mewn

arolygon a gyd-drefnwyd yn unol â'r rhaglen samplo. Roedd gweithgaredd samplo'n amlwg hefyd o ran cwynion am fwyd.

12.10 Archwiliwyd cofnodion deg o samplau safonau bwyd. Roedd canlyniadau'r samplo ar gael mewn naw achos, ac yn gyffredinol, cymerwyd camau dilynol priodol ynghylch rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol. Adeg yr archwiliad, nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn y degfed canlyniad.

12.11 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn na rhaglen samplo ddogfenedig ar gyfer samplau bwydydd anifeiliaid, er i'r Awdurdod yn ddiweddar ddechrau ar ymarfer samplo bwydydd anifeiliaid.

12.12 Cymerwyd pum sampl bwydydd anifeiliaid yn ystod y chwe mis cyn yr archwiliad. Cofnodwyd y rhain yn briodol, a chymerwyd camau dilynol o ran y tri y derbyniwyd eu canlyniadau.

12.13 Nid oedd dogfennaeth yn ymwneud â phenodi Dadansoddwyr Cyhoeddus a Dadansoddwyr Amaethyddol ddim ond yn ddigonol i ddangos bod gan rai o'r rhai a benodwyd, gymwysterau addas.

Argymhellion

12.14 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau yr ymgymerir ag ildio bwyd yn wirfoddol yn gwbl unol â deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer Deddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 12.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygu bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 12.3]

(iii) Cael tystiolaeth ddogfennol bod gan y rhai a benodwyd ganddo yn Ddadansoddwyr Cyhoeddus ac yn Ddadansoddwyr Amaethyddol iddo, gymwysterau sy'n bodloni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol. [Y Safon – 12.8]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu polisi a gweithdrefn dogfenedig o ran rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd a ddatblygwyd ar y cyd gan yr Awdurdod a sefydliadau perthnasol eraill, yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

13.2 Ni roddwyd prawf ar y weithdrefn, na'i hadolygu na'i diweddaru ers 2002. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi paratoi ac wedi diwygio cynllun achos ar sail y cynllun model diwygiedig ar gyfer Cymru, a oedd i'w gyflwyno i'r aelodau i'w gymeradwyo.

13.3 Digwyddodd nifer o achosion a ymddangosodd yn wreiddiol yn achosion o wenwyn bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, ond canfuwyd wedyn mai heintiadau firaol oeddent heb fod iddynt berthynas â bwyd. Fodd bynnag, nid oedd yn glir bob tro a ddatganwyd ar y dechrau bod achos, a'u hymchwilio yn unol â'r cynllun ar gyfer achos.

13.4 Roedd tystiolaeth o gydweithio ag Awdurdodau perthnasol eraill wrth ymchwilio i achosion. Bu'r Awdurdod yn cymryd rhan yn ogystal mewn ymarfer rheoli achos gydag Awdurdodau cyfagos.

13.5 Roedd gan yr Awdurdod nifer o weithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymchwilio i wahanol fathau o achosion achlysurol o glefydau heintus yn ymwneud â bwyd.

13.6 Archwiliwyd hysbysiadau yn ymwneud â deg achos achlysurol o achosion o glefydau heintus yn ymwneud â bwyd. Roedd cofnodion yn gyffredinol yn annigonol i benderfynu a fu ymchwilio priodol, a gwnâi bylchau yn y wybodaeth a gofnodwyd hi'n amhosibl pennu a gymerwyd camau priodol.

13.7 Yn gyffredinol gwnaeth yr Awdurdod ymchwilio i achosion achlysurol yn ddi-oed.

13.8 Cedwid cofnodion am o leiaf 6 blynedd.

Argymhelliad

13.9 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y rhoddir prawf ar y weithdrefn ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus yn ymwneud â bwyd, a'i hadolygu yn ôl fel a bennwyd.
[Y Safon – 13.1]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd, a pholisi a gweithdrefn dogfenedig, er na chynhwysid trefniadau ar gyfer cysylltu y tu allan i oriau gwaith.

14.2 Archwiliwyd cofnodion llawer o Rybuddion Perygl Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y chwe mis cyn yr archwiliad. Roedd nifer o'r rhain yn ei wneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithredu a dyna a wnaethai a hynny mewn modd priodol.

14.3 Cedwid cofnodion Rhybudd Perygl Bwyd mewn llyfr lle y cofnodid manylion am y camau a gymerwyd. Cedwid copi electronig o'r Rhybudd Perygl Bwyd yn ogystal ar y gronfa ddata gyda nodiadau llawn am y camau gweithredu a'r canlyniadau.

14.4 Seiliwyd camau gweithredu a gymerwyd yn ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd ar wybodaeth leol, ac ymddangosai eu bod yn berthnasol a phriodol.

14.5 Cysylltodd yr Awdurdod hefyd ag Asiantaeth Safonau Bwyd o ran digwyddiad yr oedd a wnelo â bwyd, a fu yn ei ardal.

Argymhelliad

14.6 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â rhybuddion perygl bwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i'r oriau gwaith arferol. [Y Safon – 14.1]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod Bolisi dogfenedig ar gyfer Gorfodi Diogelwch Bwyd a gymeradwywyd gan Fwrdd Gwasanaethau Economaidd, Yr Amgylchedd a Defnyddwyr fis Ebrill 2000. Darparwyd yn ogystal gopïau o bolisi erlyn dogfenedig, Gweithdrefn Gorfodi Polisi ac Erlyn ar gyfer Safonau Masnach, ail bolisi gorfodi, a gweithdrefn adrodd ddogfenedig.

15.2 Nid oedd y Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn yr ardal.

15.3 Adroddodd yr Awdurdod am y gweithgareddau gorfodi ffurfiol a ganlyn yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

- 1 Erlyniad;
- 1 Rhybudd Ffurfiol;
- 8 Rhybudd Gwella;
- 8 Ildio'n Wirfoddol.

Hylendid Bwyd

15.4 O'r cofnodion a archwiliwyd roedd yn amlwg i'r swyddogion a wnaeth ymdrin â gorfodi hylendid bwyd, ddefnyddio rhybuddion ysgrifenedig a Rhybuddion Gwella er mwyn cael cydymffurfiad.

15.5 Bu penderfyniadau gorfodi o ran materion hylendid bwyd yn unol â Pholisi Gorfodi Diogelwch Bwyd, a chan ystyried amgylchiadau penodol pob achos. Yn yr achosion a archwiliwyd, ymddangosai y bu'r penderfyniadau hyn yn rhai cytbwys a chywir.

15.6 Archwiliwyd cofnodion o ran wyth Rhybudd Gwella a'u gwirio yn erbyn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig perthnasol.

15.7 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwella o dan amgylchiadau priodol gan swyddogion a awdurdodwyd yn briodol. Roedd tystiolaeth hefyd i ddangos y cymerwyd camau dilynol wedi cyflwyno rhybudd, i sicrhau cydymffurfio.

15.8 Yn gyffredinol, cynhwysai rhybuddion yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol, ac roedd manylion y troseddau a'r camau i'w cymryd, yn glir ac yn hawdd i'w deall. Fodd bynnag, ni roddwyd enw llawn y perchennog ac enw a chyfeiriad y llys ynadon lleol bob tro, ac ni chofnodwyd y dull o gyflwyno'r rhybudd mewn 2 achos, ac mewn un achos nid oedd cofnod o unrhyw gamau dilynol.

15.9 Nid oedd dim cofnod o fod yr Awdurdod yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig i'r perchennog pan fyddid wedi cydymffurfio â rhybuddion. Nodwyd nad oedd yn rhan o weithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod.

15.10 Archwiliwyd cofnodion saith achos o ildio bwyd yn wirfoddol. Ym mhob achos, rhoddwyd tystysgrifau a gadarnhâi ildio'r bwyd yn wirfoddol i'w ddinistrio, â'r rheiny wedi'u llofnodi gan y sawl a oedd yn ildio'r bwyd a chan y swyddog perthnasol. Fodd bynnag, ni chofnodwyd manylion y dinistrio.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

15.11 O'r cofnodion a archwiliwyd roedd yn amlwg i swyddogion a ymdriniai â gorfodi safonau bwyd, ddefnyddio rhybuddion ysgrifenedig, rhybuddion ffurfiol ac erlyniadau i gael cydymffurfiad.

15.12 Archwiliwyd cofnodion un rhybudd ffurfiol ac un erlyniad yn ymwneud â materion safonau bwyd a'u gwirio yn erbyn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig perthnasol.

15.13 Awdurdodwyd y camau gan Bennaeth Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, yr oedd ganddo bŵer dirprwyedig i gychwyn achos cyfreithiol ar ran yr Awdurdod. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y pwerau dirprwyedig yn cynnwys yn benodol y pŵer i roi rhybuddion ffurfiol ar ran yr Awdurdod.

15.14 Roedd gweithdrefn adrodd ddogfenedig ar gyfer paratoi'n systematig achosion ar gyfer erlyniad neu rybudd ffurfiol, a chynhwysai cofnodion y ddau achos a archwiliwyd grynodeb wedi'i gwblhau o adroddiadau am y drosedd ac adroddiadau gan swyddogion. Nid oedd, fodd bynnag, ddim cofnod i ddangos i'r polisi gorfodi gael ei ystyried.

15.15 Nid oedd yr Awdurdod wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol o ran bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

15.16 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y Polisi Gorfodi neu grynodeb cywir ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn yr ardal.
[Y Safon – 15.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau dogfenedig o ran cadw, atafaelu ac ildio bwyd yn wirfoddol ac adolygu a gweithredu ei weithdrefn ar gyfer cyflwyno Rhybuddion Gwella. Dylai'r holl weithdrefnau fod yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.
[Y Safon – 15.2]

(iii) Gweithredu gorfodi cyfraith fwyd yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.
[Y Safon – 15.3]

(iv) Y caiff pob penderfyniad ynghylch camau gorfodi ei wneud ar ôl rhoi ystyriaeth i Bolisi Gorfodi'r Awdurdod. Dylid dogfennu'r rhesymau am unrhyw wyriad oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Cedwid cofnodion o ran arolygiadau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ar y gronfa ddata. Roedd y rhain yn rhwydd i'w hadfer a gellid mynd atynt yn rhwydd ac o unrhyw gyfrifiadur ar y rhwydwaith corfforaethol.

16.2 Yn ddiweddar, cyflwynwyd ffurflen gofnodi ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd i arolygiadau o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol). Defnyddiwyd y rhain ar gyfer dau o'r deg cofnod arolygu a archwiliwyd a'r canlyniad oedd fod y cofnodion hyn yn fwy cynhwysfawr.

16.3 Lle defnyddiwyd y ffurflen, roedd yn amlwg iddi hwyluso'r cofnodi systematig ar wybodaeth fanwl o ran hyfforddiant, dadansoddi perygl, ac agweddau eraill yr arolygu. Ni cheid y manylion hyn yng nghofnodion yr arolygiadau lle na chawsai'r ffurflen ei defnyddio.

16.4 Dangosai cofnodion y llythyrau ôl-arolygu a roddai fanylion y troseddau ac argymhellion, i'r rhain gael eu hanfon mewn da bryd, eu bod yn hawdd i'w deall ac yn cynnig cyfle i drafod mwy. Fodd bynnag, ni chedwid cofnodion manwl tebyg o ran arolygiadau'n ymwneud ag ymchwilio i achosion yr amheuwyd eu bod yn achos o wenwyn bwyd.

16.5 Ni chynhwysai cofnodion ac adroddiadau arolygu sefydliadau a gymeradwywyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, a gafodd eu gwirio, ddigon o wybodaeth i ddangos bod sefydliadau wedi bodloni'r amodau ar gyfer cymeradwyo, neu wedi parhau i wneud hynny ar arolygiadau a ddilynodd.

16.6 Cynhwysai cofnodion o ran arolygu siopau cigyddion wybodaeth briodol i ddangos bod safleoedd wedi bodloni gofynion trwyddedu.

16.7 Cofnodwyd arolygiadau safonau bwyd ar ffurflenni arolygu/ymweliad cyffredinol Safonau Masnach a ddefnyddid ar gyfer holl arolygiadau Safonau Masnach. Bodlonai'r ffurflen hon ofynion y Cod Ymarfer, a rhoddai dystiolaeth o gwmpas yr arolygu a wnaed.

16.8 Dangosai cofnodion gweithgaredd hylendid bwyd, safonau bwyd a samplo bwydydd anifeiliaid yr anelwyd y samplo'n briodol, ac, yn gyffredinol, i gamau dilynol gael eu cymryd yn achos canlyniadau anfoddhaol er mwyn sefydlu'r rhesymau tros y methiant, a'u datrys.

16.9 Dangosai cofnodion Rhybudd Gwella y dilynwyd Polisi Gorfodi'r Awdurdod ac, yn gyffredinol, y bodlonwyd gofynion statudol.

16.10 Nid oedd cofnodion ynghylch ildio bwyd yn wirfoddol i'w ddinistrio yn bodloni'n llawn ofynion arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog o ran yr amser, y lle, na'r dull o waredu'r bwyd.

16.11 Cofnodwyd manylion arolygiadau safleoedd a gofrestrwyd o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999, yn y rhan am safonau bwyd o ffurflen gyffredinol cofnodi arolygiad a ddefnyddiai Safonau Masnach.

16.12 Nid oedd y ffurflen hon yn cynnwys y manylion a oedd yn ofynnol yn yr arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog ar arolygiadau bwydydd anifeiliaid, ac o'r herwydd, nid oedd y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth i allu penderfynu a oedd arolygiadau wedi asesu cydymffurfiad â holl agweddau'r rheoliadau perthnasol.

Argymhelliad

16.13 Dylai'r Awdurdod:

Gynnal cofnodion cyfredol a oedd yn gywir ac ar ffurf adferadwy ar gyfer yr holl safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal, yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.
[Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol.

17.2 Cyhoeddwyd crynodeb o'r weithdrefn gorfforaethol ac roedd ar gael o Adeiladau Dinesig ac ar wefan yr Awdurdod.

17.3 Hefyd, roedd gweithdrefn ddogfenedig a nodai drefniadau'r adran ar gyfer gweithredu'r weithdrefn gorfforaethol o ran cwynion am y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

17.4 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na dderbyniwyd unrhyw gŵynion ffurfiol yn erbyn y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd na chyfraith bwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu ag awdurdodau cyfagos a chyrff eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad yn y canlynol:

- Grŵp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De-Orllewin Cymru
- Panel Iechyd a Lles Anifeiliaid,
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Grŵp Safonau Bwyd ac Amaethyddol;
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy;
- Grŵp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De-Orllewin Cymru;
- Clwb Meincnodi Clefydau Trosglwyddadwy;
- Grŵp Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;

18.2 Cadarnhaodd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt y cafwyd presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr priodol y gwasanaethau gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid.

18.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau i gydweithio â:

- Fforwm hyfforddwyr hylendid bwyd;
- Grŵp Gorchwyl Iechyd Cyhoeddus;
- Canolfan Iechyd Cymru;
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru;
- Awdurdodau lleol eraill;
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol

19 Monitro Mewnol

19.1 Yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer monitro mewnol o ran agweddau ansawdd y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd, gan gynnwys ansawdd a chysondeb arolygiadau a datblygiad y rhaglenni arolygu arfaethedig, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer.

19.2 Roedd tystiolaeth o beth monitro mewnol o ran gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd. Cynhwysai hyn agweddau o ran ansawdd a maint fel:

- Gwirio ffeiliau;
- Cyfarfodydd tîm;
- Cyfarfodydd adolygu blynyddol;
- Monitro adroddiadau arolygu a gohebiaeth;
- Arolwg cwsmeriaid yn rhan o Adolygiad Gwerth Gorau;
- Adroddiadau chwarterol i'r aelodau.

19.3 Roedd yr Awdurdod hefyd yn datblygu ymagwedd graddoledig at awdurdodi swyddogion, gan ystyried eu cymwysterau a'u profiad.

Argymhellion

19.4 Dylai'r Awdurdod:

(i) Gadarnhau ei gydymffurfiad â holl agweddau perthnasol Y Safon, deddfwriaeth, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.2]

(ii) Cynnal cofnodion o'r holl fonitro mewnol a'u cadw am o leiaf 2 flynedd. [Y Safon – 19.3]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Cyfranogodd y gwasanaeth hylendid bwyd yn yr adolygiad dogfennau ac archwilio cydymffurfiad rhyng-awdurdod ar draws Cymru ym mis Hydref 1999.

20.2 Yn ddiweddar roedd y gwasanaeth Safonau Masnach wedi cael archwiliad mewnol o'i wasanaeth yn ei gyfanrwydd.

20.3 Cafodd yr Awdurdod adolygiad Gwerth Gorau yn 2002.

20.4 Dangosodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i archwiliadau trydydd parti trwy gymryd rhan mewn archwiliad iechyd a diogelwch yn ddiweddar.

21 Hyrwyddo Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd

21.1 Dangosai'r Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd.

21.2 Roedd tystiolaeth o gyfranogi mewn ystod o weithgareddau hyrwyddo diogelwch bwyd a safonau bwyd, ac roedd cynlluniau am fwy o waith yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyfforddiant ar hylendid bwyd;
- Taflen ar ginio pecyn;
- Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
- Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru;
- Cyflwyniadau i grwpiau lleol;
- Llygad Busnes.

21.3 Nid oedd tystiolaeth o unrhyw weithgaredd hyrwyddo o ran bwydydd anifeiliaid

Argymhelliad

21.4 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithgaredd hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]

Archwilwyr: **Jane Davies**
Rob Wilkins
Lindsay Horth
Keith Blake
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Tŷ Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfffurfleniad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal

	dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny

	ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.

Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.